



Eich cyf/Your ref P-06-1190
Ein cyf/Our ref LG/10260/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Awst at Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ynglŷn â Deiseb P-06-1190, Gwahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw ddeunydd tyfu erbyn 2023. Anfonwyd eich llythyr ymlaen ataf i i'w ateb gan fod garddwriaeth yn un o'r cyfrifoldebau yn fy mhortffolio.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i lansio ymgynghoriad ar wahardd gwerthu mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn. Er nad oes unrhyw fawn yn cael ei godi yng Nghymru ar hyn o bryd, mae atal gwerthu compost mawn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Lansiais raglen weithredu genedlaethol gyntaf Cymru ar gyfer mawndiroedd ym mis Tachwedd y llynedd. Mae'r rhaglen honno'n amlinellu cynllun gweithredu dros gyfnod o bum mlynedd (2020-2025) ac mae ynddo chwe thema sy'n cael blaenoriaeth:

1. Erydu ar fawndir
2. Draenio mawndir
3. Rheoli gorfawnogydd yn gynaliadwy
4. Rheoli mawn yr iseldir yn gynaliadwy
5. Adfer mawndiroedd sydd wedi'u coedwigo
6. Mynd ati'n raddol i adfer y mawndiroedd sy'n rhyddhau'r lefelau uchaf o garbon

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo'n dda, a gwnaed gwaith adfer ar fwy na 650ha yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen. Mae'n bwysig cydnabod mai man cychwyn yn unig o ran cyflawni'n huchelgais yw'r Rhaglen 5 mlynedd gychwynnol. Bydd yn rhaid wrth gryn ymrwymiad dros nifer o flynyddoedd gan y Llywodraeth, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid i gyrraedd y nod.

Mae'r rhaglen weithredu'n canolbwyntio ar ardaloedd ar draws Cymru gyfan lle mae'r angen mwyaf am waith adfer neu reoli, ac mae hefyd yn diogelu ardaloedd sydd mewn cyflwr da ac sydd wrthi'n ymadfer. Y nod yw mynd ati'n raddol i adfer tua 600-800 ha y flwyddyn. Mae cyllideb gyfalaf o £1 filiwn ar gyfer y gwaith a thîm wedi'i neilltuo yn CNC ar ei gyfer. Un o themâu trawsbynciol y rhaglen weithredu yw meithrin gallu a chydlynu system fonitro a chofnodi genedlaethol i gasglu gwybodaeth am gyflwr a gwaith adfer.

Ymhen 18 mis ar ôl i'r Rhaglen 5 mlynedd ddod i ben, bydd CNC yn cynnal adolygiad ar sail y Themâu â Blaenoriaeth ac yn cyflwyno adroddiad am y gwaith a'r canlyniadau a gyflawnwyd ar y cyd â phartneriaid. Bydd yn ystyried y profiadau, y dysgu a'r dystiolaeth a fydd wedi'i chasglu drwy gydol y broses gyflawni ac yn gwneud argymhellion ynghylch a ddylid comisiynu ail Raglen Weithredu Genedlaethol ar gyfer Mawndiroedd. Os argymhellir hynny, bydd hefyd yn nodi ffurf a graddfa rhaglen o'r fath a pha mor gyflym y dylid mynd ati i'w chyflawni. Disgwylir y bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd cyfnod 3 ym mlwyddyn ariannol 2024/25.

Yn gywir,



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd